



Cyfarfod / Meeting

FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
SCHOOLS FINANCE FORUM

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.00 a.m. DYDD IAU, 26 CHWEFROR 2015

10.00 a.m. THURSDAY, 26 FEBRUARY 2015

Lleoliad / Location

Ystafell Gyfarfod / Assembly Room
Hen Eglwys Santes Fair / Old St Mary's Church
Heol yr Eglwys / Church Street
TREMADOG

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN

01341 424 301

Dosbarthwyd: 23.02.15

AELODAETH / MEMBERSHIP

AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS

Y Cynghorydd/Cllr Gareth Thomas (Addysg)

Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS

Mr Iwan Trefor Jones

PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen

Mr Gareth T M Jones - Ysgol Botwnnog

Mr Eifion Jones - Ysgol Brynrefail

Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal

Mr Gwyn Howells - Ysgol y Gelli

Mrs Sian Elen Fleming - Ysgol Llanaelhaearn

Mr Rhys Williams - Ysgol Cymerau

Mrs Menna Wynn Pugh - Ysgol Penybryn

Mrs Esme Spencer - Ysgol Baladeulyn

UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS

Arfon

Mr Walter Williams – Ysgol Dyffryn Ogwen - Arennig, 14 Erw Las, Bethesda, Gwyedd

Mr Godfrey Northam - Ysgol Llanllechid – 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid, Bangor, Gwynedd.

Meirionnydd

Mr Eifion Williams - Ysgol y Moelwyn – Tanrallt , Llan Ffestiniog , Blaenau Ffestiniog

Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr – Bryn, Llanbedr, Gwynedd. LL45 2HW

Dwyfor

Mr Glyn Owen – Ysgol Uwchradd Botwnnog - Rhos Newydd, Mynytho, Pwllheli, LL53 7RW

Mr T. Elwyn Jones - Ysgol Bro Plenydd - Madryn , 30 Dolwar , Y Ffor

ESGOBAETH / DIOCESE

Parchedig/Rev Robert Townsend

YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS

(Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination)

YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar

Sylwedyddion / Observers :

Mr Dilwyn Williams, Prif Weithredwr/Chief Executive

Mr Arwyn Lloyd Thomas, Pennaeth Addysg / Head of Education Service

Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Ysgolion / Senior Schools' Manager

Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate

Mr Cai Larsen, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd

Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

R H A G L E N

1. Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau am fod yn absennol.

2. Datgan Buddiant Personol

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. Cofnodion

I gadarnhau cofnodion cyfarfodydd o'r Fforwm a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- (a) 3 Tachwedd 2014 (Copi'n amgaaedig – Papur Gwyn)
- (b) 15 Ionawr 2015 (Copi i'w rannu yn y cyfarfod)

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

3 Tachwedd 2014 - Eitem 3 (a) – Hyfforddiant Cyllidol i Ysgolion **HO**

5. Arbedion Ysgolion

I dderbyn adroddiad llafar gan yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Addysg.

6. Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion (GGAY) 2015/16 **AT/HO**

7. Ymgynghoriad Gwybyddiaeth a Dysgu

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod.

(Copi'n amgaaedig – Papur Gwyrdd)

8. Fformiwla Dyrannu – Cyllid Rhwydwaith Ysgolion

I ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cyllid Datblygu. **HO**

(Copi'n amgaaedig – Papur Pinc)

9. Adolygiad Gwasanaeth Cynhwysiant

I dderbyn adroddiad llafar gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod.

10. Cyllideb Integreiddio

I dderbyn adroddiad llafar gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod.

11. Cyflwyno CLGau 2015-2018

- Glanhau
- Arlwyath

FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Hen Eglwys
Santes Fair, Tremadog,
ar 3 Tachwedd 2014 o 1.30 p.m. hyd 3.00 p.m.

Yn Bresennol:

Mr Godfrey Northam - Cadeirydd

- Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)
- Penaethiaid Ysgolion :** Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Gareth T M Jones (Ysgol Botwnnog), Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Rhys Williams (Ysgol Cymerau), Iona Wyn Jones (Ysgol Bro Cynfal/Edmwnd Prys), Menna Wynne-Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn).
- Undebau Athrawon:** Neil Foden (Ysgol Friars)
- Yr Esgobaeth:** Canon Robert Townsend
- Llywodraethwyr:** Walter Williams (Sector Uwchradd)
Gwynne Pierce (Sector Cynradd)
- Swyddogion:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr)
Owen Owens (Pennaeth Addysg Dros Dro)
Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)
Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu)
Huw Ynyr (Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)
- Sylwebydd:** Cai Larsen (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd)
- Ymddiheuriadau:** Eifion Jones (Ysgol Brynrefail), Sianelen Pleming (Ysgol Llanaelhaearn), Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn).

1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Estynnwyd croeso i'r canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion:

- Mr Gareth Jones, Ysgol Botwnnog
- Mr Rhys Williams, Ysgol Cymerau
- Mr Cai Larsen, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
- Mr Huw Ynyr, Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid

(b) Llongyfarchwyd ac estynnwyd croeso i Mr Dilwyn Williams, yn ei rôl newydd fel Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd a dymunwyd yn dda iddo yn y swydd.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2014.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) Eitem 5 (c) – Balansau Ysgolion – hyfforddiant cyllidol i ysgolion

Ymddiheurwyd gan y Rheolwr Cyllid nad oedd cynnydd wedi ei wneud mewn perthynas â'r uchod ond parheir i ystyried sefydlu safle We fydd yn galluogi unigolion i gael mynediad i ddeunydd cyllidol rhyngweithiol.

Penderfynwyd: Derbyn adroddiad pellach yng nghyfarfod nesaf y Fforwm.

(b) Eitem 8 (c) – Cynllun Ymdrin â Balansau Ysgolion

Adroddodd y Pennaeth Addysg Dros Dro y cytunwyd ar drefn i ymdrin â balansau gyda 6 ysgol uwchradd dros yr hicyn o £100,000 a 2 ysgol gynradd dros £50,000. Fe fyddir yn cydweithio gyda GwE i ganfod ffurf o weithredu gan bod mwy o waith i'w gyflawni i fanylu gydag ysgolion i adnabod blaenoriaethau ac i sicrhau bod ysgolion yn clustnodi y balansau tuag at y blaenoriaethau hynny.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(c) Eitem 9 (c) - Adnoddau Ariannol ar gael i ysgolion 2014-15

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid bod y daenlen o brif ffynonellau ariannol ysgolion wedi ei chylchredeg i ysgolion ar 27 Mehefin 2014.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod

(ch) Eitem 12 – Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Adroddodd y Pennaeth Addysg Dros Dro ar y sefyllfa gyfredol ynglŷn â'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth fel a ganlyn:

Sector Cynradd:

- | | | |
|-------------------------|---|----------------------|
| 1. Cynnal Tiroedd | - | 5 ysgol heb ymrwymo |
| 2. Gwasanaeth Archifau | - | 3 ysgol heb ymrwymo |
| 3. Gwybyddiaeth a Dysgu | - | 11 ysgol heb ymrwymo |

Ysgolion Arbennig:

1 ysgol heb ymrwymo i CLG Cynnal Tiroedd

Sector Uwchradd:

6 ysgol heb ymrwymo i CLG Cynnal Tiroedd a 4 ysgol heb ymrwymo i CLG Llyfrgell.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

4. TARGED ARBEDION YSGOLION

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg Dros Dro yn unol â phenderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer sefydlu Gweithgor i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwireddu targed arbedion ysgolion o £4.3m dros y tair blynedd nesaf.

(b) Esboniwyd bod y Cyngor wedi cytuno gyda bwriad y Cabinet i gynllunio ar gyfer darganfod arbedion gwerth £34m ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf er mwyn ymateb i'r hinsawdd ariannol a wynebir. Er mwyn medru cyflawni'r strategaeth wreiddiol rhagdybiwyd y dylid anelu i gyflawni £4.3m o arbediad o'r gyllideb ysgolion (cyfateb i tua 6%) dros y 3 blynedd nesaf. .

(c) Awgrymwyd cyfansoddiad i'r Gweithgor fel a ganlyn:

- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion
- Trawsdoriad o blith aelodau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion (penaethiaid a llywodraethwyr) gan sicrhau cynrychiolaeth o blith ysgolion arbennig, uwchradd a chynradd mawr, canolig a bach.
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau fel sylwebyddion

(ch) Gofynnir i'r Gweithgor gyflawni darn o waith ac adrodd yn ôl i'r cabinet ddiwedd Ionawr 2015 ac y byddai'n ymarfer da er mwyn gallu pwysu a mesur yr effaith cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellgyrhaeddol.

(d) Nododd Aelod oni ellir protestio a gwrthwynebu'r toriadau gan Lywodraeth Cymru oherwydd pryderai yn fawr y byddai'r toriadau yn cael goblygiadau pellgyrhaeddol ar ysgolion ac effaith ar safonau cyraeddiadau disgyblion. Golygai y byddai ysgolion yn gorfod dechrau ar y broses gormodedd o ddiswyddo.

(dd) Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'n ofynnol i briff y Gweithgor adlewyrchu i leihau'r ardrawiad ar safonau addysg.

(e) Cydnabuwyd a gwerthfawrogyd penderfyniad y Cabinet i gynnwys Penaethiaid a llywodraethwyr ar y Gweithgor.

Penderfynwyd: (a) Enwebu'r aelodau canlynol i'r Gweithgor:

**Godfrey Northam (Cadeirydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion)
Cyng. Gareth Thomas (Is-gadeirydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion)**

**Neil Foden (ysgol uwchradd fawr)
Eifion Jones (ysgol uwchradd canolig)
Alun Llwyd (ysgol uwchradd fach)**

Dewi Lake / Tudur Williams (ardal Meirionnydd / Dwyfor)

Canon Robert Townsend (Yr Esgobaeth)

(b) Gofyn i Gadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd gylchredeg yr aelodau i enwebu cynrychiolwyr o'r sector cynradd i gynrychioli'r ysgolion yn seiliedig ar ysgolion mawr, canolig a bach.

(c) Pennu'r dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd o'r Gweithgor gyda'r lleoliad i'w gadarnhau:

a.m. 18 Tachwedd 2014
p.m. 1 Rhagfyr 2014
a.m. 18 Rhagfyr 2014

5. GRANTIAU YSGOLION LLYWODRAETH CYMRU

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg Dros Dro yn amlinellu goblygiadau ariannol datganiadau diweddar Lywodraeth Cymru.

(b) Adroddodd y Rheolwr Cyllid y rhagwelir lleihad o £136,056 yng ngrantiau ysgolion ar gyfer 2014-15. Mynegwyd pryder ynglŷn â phenderfyniad y Llywodraeth i gytuno 11 grant addysg / ysgolion dan yr enw "Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion". Cyfeiria'r Gweinidog yn benodol at "Rhaid parhau i fodloni deilliannau a disgwyliadau grantiau unigol, er enghraifft cynnal y cymarebau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen" a gan bod Grant Cyfnod Sylfaen yn £97.9m o'r cyfanswm £156.7m yn 2014/14, gellir dehongli mai'r grantiau eraill fydd yn cael ergyd, cyfateb i dros 25%, gydag oblygiadau dinistriol ar nifer o gynlluniau Ysgolion a'r Adran Addysg.

(c) Nodwyd bod cynrychiolaeth o weision sifil Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r Rheolwr Cyllid am 9.30 a.m. dydd Gwener, 7 Tachwedd 2014 a chrosawyd unrhyw Aelod o'r Fforwm i fynychu pe dymument. Mewn ymateb, gwirfoddolodd Mr Neil Foden i fynychu ar ran y sector uwchradd.

(ch) Teimlwyd anniddigrwydd ymysg yr Aelodau bod y Llywodraeth yn tynnu arian yn ôl a bod yr arian hwnnw ynghlwm ag unigolion ac wedi ei wario'n barod. Awgrymodd Aelod yn gryf y dylid protestio am hyn gan anfon llythyr ar ran y Fforwm i gyfleu eu hanfodlonrwydd.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Pennaeth Addysg Dros Dro gyfleu drwy lythyr i Lywodraeth Cymru anfodlonrwydd y Fforwm o leihad ôl-syllol yng ngrantiau ysgolion ar gyfer 2014/15.

6. CRYFHAU DARPARIAETH CYSYLLTEDD TG

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid ynglŷn â chryfhau'r ddarpariaeth cysylltedd TG i ysgolion.

(b) Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi oddeutu £2.5m ar gryfhau'r isadeiledd sy'n paratoi cysylltiadau diwifr yn yr ysgolion gan gyflymu'r cysylltedd i isafswm o 10mbps i ysgolion cynradd a 100mbps i ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd gyda mwy na 300 o ddisgyblion. O Ebrill 2015 ymlaen bydd cost ychwanegol o £270,000 y flwyddyn i gynnal y gwasanaeth hwn ar gyfer:

- Cynyddu cyflymder y cysylltiad i'r ysgolion o'u safon flaenorol i'r safon o 10/100mbps
- Cryfhau'r isadeiledd i gefnogi'r twf yn dilyn cynyddu'r cyflymder
- Cost trwyddedau ar gyfer y gwasanaeth diwifr, gan gynnwys trefn hidlo cynnwys y we i ddiogelu'r defnyddwyr rhag cynnwys amhriodol
- Cost staffio ychwanegol ar gyfer cefnogi'r ddarpariaeth

ac yn gost fydd yn disgyn ar yr ysgolion.

(c) Yn dilyn trafodaeth ar wahanol opsiynau, awgrymwyd y dylid gweithredu'r costau ar fodel yn unol â'r tair elfen ganlynol gan fodelu gwahanol bwysiau arnynt:

1. Pa mor bell yw'r ysgol o'r gyfnewidfa
2. Efen o gyfradd unffurf (flat rate)
3. Nifer disgyblion

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

(b) Cymeradwyo'r gost ychwanegol o £270,000 yn unol â model gan roi pwyslais ar y tair elfen amlinellir yn (c) uchod.

7. STRATEGAETH CYNHWYSIAD YSGOLION UWCHRADD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg Dros Dro yn amlinellu ymateb i ymgynghoriad gydag ysgolion ynglyn â sefydlu protocol gweithredu Strategaeth Cynhwysiad i atal gwaharddiadau mewn ysgolion.

Adroddwyd ar yr ymatebion fel a ganlyn:

- 10 ysgol yn cefnogi'r cynnig
- 2 ysgol yn gwrthwynebu i'r cynnig ac wedi cynnig sail wahanol
- 1 ysgol wedi ymateb yn hwyr – heb sylw
- 1 ysgol heb ymateb

Cyfeiriwyd at sylwadau'r ddwy ysgol a oedd yn gwrthod y cynnig sef:

1. Pryder bod yr addewid y byddai pob ysgol yn derbyn o leiaf cyfwerth cost cyflog athro/athrawes yn cael ei dorri.
2. Nid yw'r model yn gwarantu cyllid digonol i barhau i gyflogi athro/athrawes.
3. Pryder, erbyn bydd penderfyniad ar y sail dyrannu, y bydd gweithredu'r broses gormodedd i ddiswyddo o fewn yr amserlen yn anodd.
4. Pa staff fydd yn gweithredu'r cynllun
5. Gohirio datganoli cyllid strategaeth cynhwysiad tan Ebrill 2016.

Awgrymwyd, yn seiliedig ar y ffaith bod mwyafrif o'r ysgolion yn gytûn â gweithredu'r strategaeth, y dylid ei weithredu o Fedi 2015 a'i fod i fyny i ysgolion sefydlu gweithlu eu hunain.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

(b) Cymeradwyo i ddyrannu cyllid strategaeth cynhwysiad i'r ysgolion uwchradd, gan gynnwys trosglwyddo cyflogaeth y staff o'r awdurdod i'r ysgolion, yn weithredol o Medi 2015.

8. BALANSAU YSGOLION GWYNEDD YNG NGHYD-DESTUN CYMRU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar falansau ysgolion ar 31 Mawrth 2014 gyda chyfle i gymharu balansau ysgolion Gwynedd gyda gweddill awdurdodau lleol Cymru.

O'r cyhoeddiad diweddar, gwelir bod Gwynedd yn parhau'n un o'r rhai uchaf ac yn achosi pryder gan na wneir y defnydd gorau gan **rai ysgolion** o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer disgyblion sydd oddi fewn i'r gyfundrefn addysg ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw bod canran ysgolion Gwynedd yn erbyn y gyllideb ddatganoledig yn 4.4% o'i chymharu gyda chyfartaledd Cymru o 2.8%.

Ategwyd y pryder gan sawl Aelod o'r Fforwm yn y ffaith nad oedd yr arian yn cael ei wario ar gyfer y disgyblion. Roedd tueddiad i ysgolion ymrwymo balansau ar gyfer y flwyddyn ganlynol tuag at achosion brys ac nid ar gyfer elfen benodol a bod yr arian felly yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

CADEIRYDD

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	26 Chwefror 2015
TEITL	Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu
PWRPAS	Adrodd nôl ar yr ymgynghoriad
ARGYMHELLIAD	Cytuno i dynnu datganoli nôl
AWDUR	Arwyn Thomas
AELOD CABINET DROS ADDYSG	Y Cyngorydd Gareth Thomas

Cefndir

Mae'r Cyngor yn cynnal Adolygiad Strategol o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ynghyd â pharatoi ar gyfer newid mewn deddfwriaeth yn y dyfodol agos. Er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer hyn yn ystod 2015/16 mae'r Adran Addysg yn cyflwyno i'r cyfarfod hwn o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ein bwriad fel Awdurdod i beidio â datganoli cyllid 'Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu' i'n hysgolion o Ebrill 2015 ymlaen.

Sail resymegol

Yn ystod 2015/16 bwriedir adolygu'r Gwasanaeth wrth barhau i gefnogi ysgolion, ond heb y fiwrocratiaeth sydd ynghlwm â'r CLG presennol.

Y drefn bresennol:

- Sefydlwyd y Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu yn dilyn ail strwythuro'r gwasanaeth ar gyfer cefnogi'r ysgolion yn y maes gwybyddiaeth a dysgu.
- Mae'r gyllideb wedi'i datganoli i'r ysgolion cynradd ac mae'r awdurdod yn cynnig y ddarpariaeth i bob ysgol drwy Gytundeb lefel Gwasanaeth (CLG)
- Yn y 2 flynedd ddiwethaf mae nifer o ysgolion wedi dewis peidio prynu'r gwasanaeth yma drwy CLG ac yn darparu'r gwasanaeth eu hunain – am nifer o resymau.

Yr achos dros newid:

- Strategaeth ADY newydd ynghyd â gofynion deddfwriaethol newydd yn rhoi cyfrifoldebau penodol i'r awdurdod lleol fonitro ac adolygu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth yn fwy manwl.
- Yr Adolygiad ADY wedi bod yn gyfle i adolygu'r holl ddarpariaeth er mwyn sicrhau'r deilliant "Bod plant sydd gydag ADY yn derbyn gwasanaeth o ansawdd gan dimau amlasiantaethol ac integredig ar draws Gwynedd, sy'n rhannu gwybodaeth, yn cynllunio ar y cyd, ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth eglur i rieni"

- I wireddu hyn mae angen:
 - Symleiddio'r dull o gyflwyno'r gwasanaeth
 - Sicrhau cysondeb, ansawdd a darpariaeth ar draws y sir
 - Cyd weithio'n well efo'r asiantaethau gwahanol
 - Gwireddu potensial yr ysgolion arbennig

Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig hwn, gyda gwahoddiad i ysgolion gyflwyno sylwadau ar y bwriad erbyn diwedd y dydd, ddydd Mercher 11 Chwefror 2015.

Derbyniwyd un sylw perthnasol:

Diolch am y cyfle i gyfrannu tuag at yr ymgynghoriad ar ddarpariaeth Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu Gwynedd. Fel Pennaeth un o'r ysgolion sydd wedi dewis peidio ymrwymo i'r CLG Gwybyddiaeth a Dysgu Ebrill 2014, rwyf yn bryderus iawn am y cais i dynnu'r dewis yma oddi wrthym fel ysgolion.

Heb ymhelaethu'n ormodol, gellir crynhoi sail penderfyniad gwreiddiol Corff Llywodraethol yr ysgol dros beidio arwyddo i ddwy ystyriaeth:

(1) Ni dderbyniwyd unrhyw wasanaeth am gyfnod yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14, a ddim o gwbl o'r 1/4/14. Gyda chyllideb ddrafft yr ysgol yn cyrraedd ddechrau Mehefin 2014 a ninnau heb dderbyn unrhyw ddarpariaeth 'Gwybyddiaeth a Dysgu' o 1/4/14 (beth bynnag y rhesymau tu cefn i hynny) byddai wedi bod yn anghyfrifol i'r Corff Llywodraethol arwyddo'r CLG.

(2) Ansawdd y Ddarpariaeth – Yn y cyfnod byr o fod yn derbyn y gwasanaeth, teimlais y gallai'r ysgol ddarparu ansawdd uwch o'r un gwasanaeth yn fewnol. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Corff Llywodraethol, cytunwyd gyda'r egwyddor yma ac yn sicr felly o ystyried (1).

I ymateb yn benodol i'r achos dros newid yn eich llythyr -

- Strategaeth ADY newydd ynghyd â gofynion deddfwriaethol newydd yn rhoi cyfrifoldebau penodol i'r awdurdod lleol fonitro ac adolygu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth yn fwy manwl.

Nid yw hwn yn achos am newid. Mae pob Pennaeth yn derbyn bod angen i'r AALI fonitro yn fanwl – mae hynny eisoes wedi digwydd mewn perthynas â'r Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu. Roedd sylwadau anffurfiol y swyddog ymwelodd â ni yma yn hynod gadarnhaol. Roedd yna gydnabyddiaeth (eto yn anffurfiol) bod yr ysgol yn darparu'r gwasanaeth i safon dda ond yn fwy na hynny, yn medru defnyddio ei hadnabyddiaeth o blant, teuluoedd a hefyd perthynas weithio agos gydag aelodau eraill o staff i ymestyn y ddarpariaeth ymhellach ac i sicrhau gwerth gwell am arian.

- Yr Adolygiad ADY wedi bod yn gyfle i adolygu'r holl ddarpariaeth er mwyn sicrhau'r deilliant "Bod plant sydd gydag ADY yn derbyn gwasanaeth o ansawdd gan dimau amlasiantaethol ac

integredig ar draws Gwynedd, sy'n rhannu gwybodaeth, yn cynllunio ar y cyd, ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth eglur i rieni".

Eto, mae'n anodd i mi dderbyn bod hyn yn achos am newid. Yn hytrach, dyma gyfle perffaith i uwch sgilio staff rheng flaen ysgolion.

- I wireddu hyn mae angen:
- Symleiddio'r dull o gyflwyno'r gwasanaeth

Siawns mai'r gwasanaeth symlaf bosibl fyddai dirprwyo'r cyfrifoldeb i ysgolion ac i Swyddog yr AALI fonitro'r ansawdd.

- Sicrhau cysondeb, ansawdd a darpariaeth ar draws y sir
- Cyd weithio'n well efo'r asiantaethau gwahanol
- Gwireddu potensial yr ysgolion arbennig

Eto, teimlaf nad oes dim yma nad ellir ei ddarparu yn well drwy uwch sgilio aelodau o staff mewnol ein hysgolion. Mae'r diwylliant o weithio ysgol i ysgol wedi dechrau gwreiddio ac yn unol â'r diwylliant newydd yma, rhwydd iawn fyddai cynnwys agweddau 'Gwybyddiaeth a Dysgu'.

Yn ychwanegol, teimlaf nad yw'r prif achos dros newid wedi'i gynnwys, sef yr arbedion cyllidol sy'n wynebu'r AALI a'r Cyngor. Gydag ysgolion wedi cynllunio ei darpariaeth Gwybyddiaeth a Dysgu fewnol yn ofalus yn cynnwys contractau staff, buddsoddi mewn hyfforddiant ac adnoddau, byddai tynnu'r gwasanaeth yn ôl i'r canol yn doriad cyllidol ychwanegol. Yma yn yr ysgol, bydd yn arwain at dorri cyfran o swydd athrawes. Mwy rhwystredig fyth fyddai gorfod derbyn y byddai'r toriad swydd a darparu o'r canol yn arwain at wasanaeth o ansawdd is. Hynny wrth gwrs heb fai yn y byd ar unrhyw athro/awes Gwybyddiaeth a Dysgu - byddai'n gwbl amhosibl i unrhyw unigolyn yn teithio o un ysgol i'r nesaf o ddydd i ddydd i sicrhau cystal adnabyddiaeth o blant a theuluoedd ac i ddatblygu perthynas weithio mor effeithiol gydag aelodau o'n gweithlu. Dyma un o brif egwyddorion cyfeiriad presennol y Cynulliad – sef yr egwyddor mai dyrannu canran cynyddol o'r setliad addysg i'r ysgolion sydd fwyaf cynhyrchiol ac sy'n ddisgwyliedig – heb os, byddai oblygiadau tynnu'r arian yma o goffrau ysgolion tebyg i'n hysgol yn erbyn natur yr egwyddorion hyn a'r sgil effaith drwy ansawdd is o ddarpariaeth yn adlewyrchiad perffaith o sail yr egwyddor.

Diolch unwaith eto am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau.

Casgliadau/penderfyniad

Ar sail y ffaith mai un sylw (yn gwrthwynebu i'r cynllun) a dderbyniwyd, nid yw'r Adran Addysg o'r farn bod angen newid cyfeiriad o'r bwriad gwreiddiol. O'r herwydd, bydd yr Adran Addysg yn parhau â'r bwriad i beidio â datganoli cyllid 'Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu' i'n hysgolion o Ebrill 2015 ymlaen.

Pennaeth Addysg (dros dro) Head of Education (interim)

Owen Owens

Gofynnwch am / Ask for: **Owen Owens**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO**
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ owenowens@gwynedd.gov.uk

12 Rhagfyr 2014

At benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion cynradd Gwynedd

Annwyl Bennaeth a Chadeirydd Y Llywodraethwyr

Par: Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu

Byddwch yn ymwybodol bod y Cyngor yn cynnal Adolygiad Strategol o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ynghyd â pharatoi ar gyfer newid mewn deddfwriaeth yn y dyfodol agos. Er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer hyn yn ystod 2015/16 bwriedir cyflwyno i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ym mis Ionawr 2015 ein bwriad fel Awdurdod i beidio â datganoli cyllid 'Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu' i'n hysgolion o Ebrill 2015 ymlaen.

Yn ystod 2015/16 bwriedir adolygu'r Gwasanaeth tra yn parhau i gefnogi ysgolion, ond heb y biwrocratiaeth sydd ynghlwm â'r CLG presennol.

Y drefn bresennol:

- Sefydlwyd y Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu yn dilyn ail strwythuro'r gwasanaeth ar gyfer cefnogi'r ysgolion yn y maes gwybyddiaeth a dysgu.
- Mae'r gyllideb wedi'i datganoli i'r ysgolion cynradd ac mae'r awdurdod yn cynnig y ddarpariaeth i bob ysgol drwy Gytundeb lefel Gwasanaeth (CLG)
- Yn y 2 flynedd ddiwethaf mae nifer o ysgolion wedi dewis peidio prynu'r gwasanaeth yma drwy CLG ac yn darparu'r gwasanaeth eu hunain – am nifer o resymau.

Yr achos dros newid

- Strategaeth ADY newydd ynghyd â gofynion deddfwriaethol newydd yn rhoi cyfrifoldebau penodol i'r awdurdod lleol fonitro ac adolygu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth yn fwy manwl.
- Yr Adolygiad ADY wedi bod yn gyfle i adolygu'r holl ddarpariaeth er mwyn sicrhau'r deiliant "Bod plant sydd gydag ADY yn derbyn gwasanaeth o ansawdd gan dimau amlasiantaethol ac integredig ar draws Gwynedd, sy'n rhannu gwybodaeth, yn cynllunio ar y cyd, ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth eglur i rieni"
- I wireddu hyn mae angen:
 - Symleiddio'r dull o gyflwyno'r gwasanaeth
 - Sicrhau cysondeb, ansawdd a darpariaeth ar draws y sir
 - Cyd weithio'n well efo'r asiantaethau gwahanol
 - Gwireddu potensial yr ysgolion arbennig

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y bwriad hwn gan Yr Awdurdod gofynnaf i chi gyflwyno eich sylwadau a'u hanfon ataf erbyn **diwedd y dydd, ddydd Mercher 11 Chwefror 2015** os gwelwch yn dda – i sylw Annie Sanson anniesanson@gwynedd.gov.uk

Byddaf yn adrodd ar y mater hwn i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac i Gabinet Y Cyngor gan ofyn am eu cefnogaeth i'r bwriad.

Yn gywir

Owen Owens

Owen Owens

Pennaeth Addysg (dros dro)

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	26 Chwefror 2015
TEITL	Fformiwla Dyrannu Cyllid Rhwydwaith Ysgolion
PWRPAS	Adrodd nôl ar yr ymgynghoriad
ARGYMHELLIAD	Cytuno ar y Fformiwla Dyrannu
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid
AELOD CABINET DROS ADNODDAU	Y Cyngorydd Peredur Jenkins

Cefndir

Ymhellach i gyflwyniad yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid i'r Fforwm 3 Tachwedd 2014, cyflwynwyd y llythyr a taenlen atodedig i'r ysgolion yn dangos amcangyfrif cost y gwasanaeth Rhwydwaith am 2015/16 a'r fformiwla oedd yn cael ei gynnig –

Gwir gost llogi 'circuits'	£275mil
Isadeiledd ar sail nifer disgyblion	£186mil
Cefnogi gwasanaeth diwifr ar sail nifer disgyblion	£116mil
Cyfanswm cost 2015/16	£577mil
Dyraniad pro-rata i'r cyfanswm cost (53.66% o'r gost)	£307mil

Yn syml mae'r dyraniad yn gyfrannol i'r gost fesul ysgol.

Anfonwyd yr ymgynghoriad at 97 ysgol gynradd, 14 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig, cyfanswm o 113 ysgol.

Derbyniwyd 3 ymateb i'r ymgynghoriad -

- 1 ysgol yn cadarnhau cefnogaeth i'r dull/fformiwla dyrannu

- 1 ysgol yn teimlo bod rhannu rhywfaint o'r costau ar sail niferoedd yn deg, ond bod elfen o anhegwch yn ymddangos i rai ysgolion gydag cost llogi "circuits" uwch na'r cyfartaledd o bosib oherwydd lleoliad. Pryder bod cynsail yma i godi mwy am wasanaethau ym mhellafoedd gwledig y sir yn hytrach na rhannu'r cyfanswm cost rhwng holl ysgolion. Cynnig bod yr elfen "circuits" yn cael ei rannu'n gyfartaledd rhwng yr ysgolion yn hytrach nac ar sail gwir gost fesul safle.
- Nid oedd sylw y trydydd ysgol ar sail y fformiwla, ond yn hytrach ar ddiffygion y gwasanaeth. Mae'r sylwadau wedi'u cyfeirio i'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid iddo ymateb yn uniongyrchol i'r ysgol.

Argymhelliad

Mabwysiadu'r sail dyrannu sydd wedi'i gynnig.

Pennaeth Addysg Head of Education

Arwyn Thomas

Gofynnwch am/Ask for: **Arwyn Thomas**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **AT/AAS**
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ arwynthomas@gwynedd.gov.uk

28 Ionawr 2015

At benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd

Annwyl Bennaeth a Chadeirydd Y Llywodraethwyr

Par: Ymgynghoriad Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi oddeutu £2.5m ar gryfhau'r isadeiledd sy'n paratoi cysylltiadau diwifr yn yr ysgolion gan gyflymu'r cysylltedd i isafswm o 10mbps i ysgolion cynradd a 100mbps i ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd gyda mwy na 300 o ddisgyblion. Mae oblygiadau refeniw parhaol i gefnogi'r ddarpariaeth. Mae cyfanswm cost y ddarpariaeth yn £577mil y flwyddyn, gyda chyllideb ar gael gan y Cyngor o £307mil a'r gweddill o £270mil yn cael ei ddarparu trwy grant gan Lywodraeth Cymru hyd at Fawrth 2015. O Ebrill 2015 mae'r grant yn cael ei ddileu a'r gost ychwanegol a parhaol o £270mil yn disgyn ar ysgolion -

	Costau 2015/16	Cyllid ar Gael	Cost Ychwanegol i Ysgolion
'Circuits'	£275mil	£133mil	£142mil
Isadeiledd	£186mil	£174mil	£12mil
Cefnogi Gwasanaeth Diwifr	£116mil	-	£116mil
cyfanswm	£577mil	£307mil	£270mil

Mae mwy o gefndir i'r cynllun ar gael trwy'r linc isod i adroddiad yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Trawsnewid gyflwynwyd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 3 Tachwedd 2014 (gweler eitem 6) –

<https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=/2014-15/Fforwm> **Cyllideb Ysgolion Schools Finance Forum/2014-11-03**

Bwriad y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yw codi pris o £577mil ar ysgolion yn 2015/16. Bydd yr ysgolion yn derbyn dyraniad cyfwerth £307mil i gyfrannu tuag at y gost, sydd yn gadael gweddill o £270mil y bydd rhaid i ysgolion ei ddarganfod o fewn eu cyllidebau am 2015/16. Mae'r gost yma wedi'i gyflwyno fel rhan o ragolygon 3 mlynedd anfonwyd at ysgolion yn ystod mis Tachwedd 2014.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

I ddyrannu'r cyllid sydd ar gael o £307mil rhaid cael fformiwla i'w ddosbarthu. *Bwriad yr Awdurdod, a'r hyn yr ydym yn ymgynghori â fo, ydi dosbarthu ar sail -*

Gwir gost llogi 'circuits'	£275mil
Isadeiledd ar sail nifer disgyblion	£186mil
Cefnogi gwasanaeth diwifr ar sail nifer disgyblion	£116mil
Cyfanswm cost 2015/16	£577mil
Dyraniad pro-rata i'r cyfanswm cost (53.66% o'r gost)	£307mil

Atodaf dabl sydd yn dangos yr holl gostau (£577mil) fesul ysgol, gwerth y dyraniad (£307mil) i bob ysgol ac hefyd y gost ychwanegol (£270mil) fydd yn disgyn ar gyllideb pob ysgol unigol.

Os hoffech gyflwyno sylwadau **ar y sail dyrannu (nid ar y gost ychwanegol i ysgol sydd yn anorfod, na'r gwasanaeth ei hun)** gofynnaf i chi wneud hyn a'u hanfon ataf erbyn **diwedd y dydd, ddydd Mercher 18 Chwefror 2015** os gwelwch yn dda – i sylw Annie Sanson anniesanson@gwynedd.gov.uk

Byddaf yn adrodd ar yr ymgynghori i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac i Gabinet Y Cyngor gan ofyn am eu cefnogaeth i weithredu yn 2015/16.

Yn gywir

Arwyn Thomas

Arwyn Thomas
Pennaeth Addysg

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	26 Chwefror 2015
TEITL	Cytundebau Lefel Gwasanaeth Ysgolion
PWRPAS	Codi ymwybyddiaeth o gynnwys y cytundebau
ARGYMHELLIAD	Derbyn y cytundebau i'w cynnig i ysgolion
AWDUR	Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
AELOD CABINET DROS ADDYSG	Y Cyngorydd Gareth Thomas

Cyflwynir Cytundebau Lefel Gwasanaeth Ysgolion (CLG) ar gyfer –

Arlwyo Ysgolion

Bydd y gwasanaeth yn ffurfio partneriaeth gyda'r Ysgolion er mwyn darparu bwyd o ansawdd da a maethlon ar gyfer pob disgybl, staff ac ymwelwyr yn unol â'u anghenion unigol.

Cynigir cytundeb tair blynedd rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2018.

Glanhau Ysgolion

Bydd y gwasanaeth yn ffurfio partneriaeth â'r Ysgolion er mwyn darparu amgylchedd glân a diogel i'r holl ddisgyblion, staff ac ymwelwyr, yn unol â'u hanghenion unigol.

Cynigir cytundeb tair blynedd o 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2018.

Addysg

Education

**Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Y Gwasanaeth Glanhau a Gofalu am
Ysgolion**

Ysgolion Cynradd ac Arbennig

Ebrill 2015 - Mawrth 2018



CYNNWYS

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Y Cytundeb
- 1.2 Y Gwasanaeth
- 1.3 Dulliau Darparu
- 1.4 Cyfrinachedd
- 1.5 Datrys Anghydfod
- 1.6 Hyd y Cytundeb
- 1.7 Amodau Terfynu'r Cytundeb

2.0 Pecynnau Craidd

- 2.1 Glanhau Adeiladau
- 2.2 Dyletswyddau Diogelwch a Deilydd y Goriadau
- 2.3 Gwaredu gwastraff
- 2.4 Hyfforddi Staff
- 2.5 Gweithdrefnau Glanhau a Hylendid
- 2.6 Glanhau'n ystod Gwyliau'r Ysgol
- 2.7 Iechyd a Diogelwch
- 2.8 Monitro Contractau
- 2.9 Cymorth i Benaethiaid a Llywodraethwyr
- 2.10 Materion cyflogaeth
- 2.11 Gwasanaethau Ariannol
- 2.12 Gwasanaeth Dwyieithog

3.0 Cost y Cytundeb

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Y Cytundeb

Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) rhwng Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Ysgolion ac Ysgolion Cynradd yw hwn, er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer Glanhau a Gofalu am Ysgolion.

1.2 Y Gwasanaeth

Glanhau a Gofalu Ysgolion

Y prif amcan yw darparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n cynnig gwerth am arian ac sy'n ymateb i anghenion ein cwsmeriaid. A ninnau'n rhan o Gyngor Gwynedd, rydym yn cydnabod ein dyletswydd i'r gymuned leol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd a gwerth am arian i bobl Gwynedd.

Darparu gwasanaeth o safon uchel drwy reoli a rhoi arweiniad, drwy weithdrefnau a phrosesau cost effeithiol a thrwy ddarparu hyfforddiant perthnasol o ansawdd da i bob gweithiwr.

Darparu pob gwasanaeth yn ddwyieithog a thrin ein cwsmeriaid â chwarteisi a pharch.

Drwy gyflogi staff lleol, a chynnal safonau da cyson, gobeithiwn allu darparu amgylchedd diogel i holl ddisgyblion, staff ac ymwelwyr yr ysgol.

1.3 Dulliau Darparu

Bydd y gwasanaeth hwn yn ffurfio partneriaeth â'r Ysgolion er mwyn darparu amgylchedd glân a diogel i'r holl ddisgyblion, staff ac ymwelwyr, yn unol â'u hanghenion unigol.

Mae gennym Bolisi Ansawdd a gweithdrefnau glanhau clir sydd wedi'u cynnwys mewn Llawlyfr Glanhau a gyflwynir i bob safle.

Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran safonau ansawdd, a gwella'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Ysgolion fe fydd y Tim Rheoli Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yn monitro'r safonau'n rheolaidd ac yn adrodd yn ôl i staff a Phenaethiaid yr ysgolion.

Bydd y Gwasanaeth yn cyflogi digon o bobl i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen bob amser, ym mhob cyswllt.

Mae'r staff oll wedi'u hyfforddi ac wedi cymhwyso yn ôl safonau BICS (British Institute of Cleaning Science) ac wedi derbyn hyfforddiant diogelu lefel 1.

Mae pob cynnyrch ac offer wedi'u profi ac yn cydymffurfio â chanllawiau diogelwch yr Amgylchedd. Mae hyfforddiant anwytho yn cynnwys Defnyddio Peiriannau'n Ddiogel.

Un nodwedd gref i'n gweithdrefnau yw'r system glanhau yn ôl côd lliw. Mae'r system wedi bod yn ei lle ers nifer o flynyddoedd, ac fe'i dyluniwyd i osgoi traws-halogi. Mae hylendid yn brif flaenoriaeth – yng nghyswllt hyfforddi ein gweithwyr, ein dulliau glanhau ac ein dewis o gemegau glanhau.

Bydd y Gwasanaeth yn ymateb ar unwaith i unrhyw gwynion a dderbynnir neu i achosion o ddiffyg cydymffurfiaid â safonau glendid.

Bydd y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Ysgolion yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, ynghyd â'r holl reoliadau, codau ymarfer cymeradwy a deddfau eraill, ac yn adrodd am unrhyw anafiadau, clefydon neu ddigwyddiadau peryglus yn unol â rheoliadau RIDDOR 2013.

1.4 Cyfrinachedd

Bydd y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Ysgolion yn sicrhau bod pob aelod o staff yn arddel cyfrinachedd unrhyw ddata, a bod gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel heb unrhyw amheuan am gyfrinachedd y wybodaeth.

Bydd y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data.

1.5 Datrys Anghydfod

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion neu sylwadau am y Gwasanaeth i'r Glanhawr â Gofal a'r Rheolwr Arlwyo a Glanhau. Bydd y Rheolwr Arlwyo a Glanhau yn ceisio datrys unrhyw wahaniaeth barn ar gynnwys neu weithrediad y cytundeb hwn drwy drafodaeth. Os na ellir dod i gytundeb, dylid cyfeirio'r anghydfod at y Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol, Adran Addysg.

1.6 Hyd y Cytundeb

Cynigir cytundeb tair blynedd o 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2018.

1.7 Terfynu Cytundeb

Bydd rhybudd ysgrifenedig o dri mis yn cael ei roi gan y naill barti cyn terfynu'r cytundeb.

2.0 Pecynnau Craidd

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn fodd o sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefn glir sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol y Cyngror, ac sy'n diogelu rhag methu â chyflawni gofynion statudol.

2.1 Glanhau Adeiladau

Gwasanaeth	Safonau	Amserlen	Cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Arlwyio a Glanhau Ysgolion	Cyfrifoldebau'r Ysgol
2.1.1. Glanhau'r Safle	Mor aml ag sydd wedi'i nodi yn y siart amldeirau.	Yn ddyddiol	Sicrhau bod y safle'n lân ar ddiwedd diwrnod gwaith Dilyn y dulliau glanhau fel y'i disgrifir hwy yn y Llawlyfr Glanhau	Caniatáu mynediad ar ôl i'r plant adael Darparu dŵr poeth a thrydan Darparu digon o gyfleusterau storio diogel
2.1.2 Diweddarau Manylion y Safle	Sicrhau bod y cofnodion wedi'u diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r safle	Yn achlysurol yn unig	Mesuriadau'r safle Cynlluniau'r Safle Newidiadau i batrymau gweithio Cofnodi newidiadau i ddefnydd ystafell	Rhoi gwybod i'r gwasanaeth am unrhyw newidiadau i'r adeilad, defnydd ystafelloedd neu oes ystafelloedd wedi'u cau.

2.2 Dyletswyddau Diogelwch a Deilydd y Goriadau

Gwasanaeth	Safonau	Amserlen	Cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Arlwyio a Glanhau Ysgolion	Cyfrifoldebau'r Ysgol
2.2.1 Agor yr ysgol	Sicrhau bod y safle'n ddiogel i staff a disgyblion	Cytuno'n ddyddiol â'r Pennaeth	Bod yn gyfrifol am oriadau'r ysgol Diffodd y system larwm Agor (datgloi) pob giât sy'n rhoi mynediad i'r ysgol Rhoi'r goleuadau ymlaen a gwirio'r gwres canolog Gwirio nad oes fandaliaeth neu arwydd o gamddefnyddio eiddo'r ysgol Sicrhau bod yr ysgol wedi'i hagog yn barod i'r defnyddwyr gyrraedd	Darparu goriadau Darparu unrhyw wybodaeth ar y systemau larwm Darparu manylion cyswllt pe bai argyfwng
2.2.2 Diogelu'r Ysgol ar ddiwedd y dydd	Sicrhau bod y safle wedi'i gau'n ddiogel ar ddiwedd diwrnod gwaith	Yn ddyddiol	Rhoi'r system larwm ymlaen Cloi pob giât sy'n rhoi mynediad i'r ysgol Diffodd goleuadau a gwirio bod y gwres canolog wedi'i ddiffodd Cau a diogelu'r safle ar ddiwedd y dydd	Darparu goriadau Darparu unrhyw wybodaeth ar y systemau larwm Darparu manylion cyswllt pe bai argyfwng

2.2 Dyletswyddau Diogelwch a Deilydd y Goriadau - parhad

	Gwasanaeth	Safonau	Amserlen	Cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Ysgolion	Cyfrifoldebau'r Ysgol
2.2.3	Dyletswyddau Galw Allan pan fo Larwm Tân neu Larwm Lladron	Ymateb i argyfwng	Yn ôl yr angen	Ymateb i alwad allan oherwydd larwm Rhoi gwybod i'r Pennaeth am unrhyw ddigwyddiad Cydweithredu â'r Gwasanaethau Brys	Ymateb i gais y Glanhau Cyfrifol Darparu gwybodaeth ar larymau tân / tresbaswr

2.3 Gwaredu gwastraff

	Gwasanaeth	Safonau	Amserlen	Cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Ysgolion	Cyfrifoldebau'r Ysgol
2.3.1	Darparu Biniau Olwyn	Darparu gwasanaeth digonol ar gyfer gwaredu gwastraff cyffredinol	Yn wythnosol	Darparu biniau olwyn i ddal gwastraff cyffredinol, yn unol â gofynion yr ysgol	Darparu biniau sbwriel yn yr ystafelloedd dosbarth
